


EICH ARDAL CHI. BETH SY'N BWYSIG?

ARDAL
FFESTINIOG



ASESIAD O LESIANT GWYNEDD A MÔN

EISIAU
DWEUD
EICH
DWEUD?

Mae'r ddeddf newydd wedi sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio efo'i gilydd i greu gwell dyfodol i bobl Cymru.


Ar gyfer Gwynedd a Môn mae'r ddau Fwrdd wedi dod at ei gilydd i gydweithio, ac mae'n bartneriaeth sy'n cynnwys y cynghorau sir, y gwasanaeth tân ac achub, gwasanaeth iechyd a Chyfoeth Naturiol Cymru.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi rhannu'r ardal gyfan yn 14 o ardaloedd llai. Mae gwaith ymchwil wedi cael ei wneud ar ran y Bwrdd ar bob un o'r 14 ardal er mwyn deall a dysgu mwy am lesiant yr ardaloedd hynny. Yn ogystal â'r data sydd ar gael rydym hefyd eisiau gwybod beth rydych chi yn feddwl am eich ardal a'ch cymuned – yr hyn sy'n bwysig i chi, beth sy'n dda a beth sydd angen ei wella. **Bydd cyfle i chi leisio eich barn trwy fynychu un o'r sesiynau galw heibio lleol neu mewn holiadur ar-lein. Mae mwy o wybodaeth a dyddiad pob sesiwn leol i weld ar www.LlesiantGwyneddaMon.org.**

Bydd y cyfnod ymgynghori yma yn dod i ben ar y 31^{ain} o Ragfyr 2016. Y gobaith yw y bydd gan y Bwrdd ddarlun cliriach wedyn o'n cymunedau, beth sy'n bwysig i bobl yn yr ardal yma o Gymru, a sut gall y partneriaid gyd-weithio i gynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

DAETH DEDDF LLESIANT
CENEDLAETHAU'R
DYFODOL [CYMRU] I
RYM AR Y 1^{AF} O EBRILL
2016. PWRPAS Y DDEDDF
YW GWELLA LLES
**CYMDEITHASOL,
ECONOMAIDD,
AMGYLCHEDDOL
A DIWYLLIANNOL
CYMRU.**

DYMA'R WYBODAETH
RYDYM WEDI EI GASGLU
AR ARDAL FFESTINIOG,
SY'N CYNNWYS
TRAWSFYNYDD. YDYCH
CHI'N ADNABOD Y
DARLUN SYDD WEDI EI
GREU O'CH ARDAL CHI?



PWY YW POBL ARDAL FFESTINIOG?

Mae **6,503** o bobl yn byw yn ardal Ffestiniog. Mae hyn tua 5% o gyfanswm poblogaeth Gwynedd.

O'i gymharu â phatrwm poblogaeth gweddill Gwynedd a Chymru, mae cyfran uwch o blant yn ardal Ffestiniog ond llawer llai o bobl rhwng 20 a 35. Mae hefyd mwy o bobl rhwng 50 a 65 oed yn yr ardal.

Mae nifer y bobl sy'n byw yn ardal Ffestiniog wedi disgyn – 4% rhwng 1981 a 2011. Mae hyn yn wahanol i'r patrwm yng Ngwynedd a Chymru dros yr un cyfnod, ble mae cynnydd wedi bod (15% yng Ngwynedd ac 11% yng Nghymru).

Nid yw'r boblogaeth ym mhob grŵp oedran wedi disgyn. Mae nifer y bobl dros 80 oed wedi tyfu dros 80% mewn 30 mlynedd, ac mae twf hefyd wedi bod yn y boblogaeth rhwng 40 ac 80 oed. Ond mae yna 25% yn llai o blant dan 16 oed nag oedd 30 mlynedd yn ôl.

Mae disgwyl i'r twf yma barhau mewn rhai grwpiau oedran yn fwy na'i gilydd, wrth i bobl fyw yn hirach a symud i mewn i'r ardal. Mewn ugain mlynedd mae disgwyl y bydd tua **60% yn rhagor o bobl dros 80 oed** yn byw yng Ngwynedd, ond dim ond 2% fydd y twf yn y boblogaeth rhwng 16 a 64 oed.

IAITH

Yn ôl cyfrifiad 2011 mae **77%** o bobl ardal Ffestiniog yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r ganran wedi gostwng dros y degawdau diwethaf o'i gymharu â 87% yn 1981. Mae'r gostyngiad o 10% yn ardal Ffestiniog yn debyg i'r patrwm ar gyfer Gwynedd gyfan – o 76% i 65% yn yr un cyfnod.


Yn ôl holiadur diweddar mae 77% o ddisgyblion rhwng 7 ac 11 oed ardal Ffestiniog yn siarad Cymraeg ar fuarth yr ysgol yn aml neu bob amser. Mae hyn yn uwch na'r **69%** yng Ngwynedd. Mae ffigyrau diweddar yn dangos mai 60% o bobl Gwynedd sy'n siarad Cymraeg yn ddyddiol, ac 11% yng Nghymru.

CYNNYDD
60%
OEDRAN
80+

2036
POBLOGAETH
GWYNEDD
132,000



2016
POBLOGAETH
GWYNEDD
123,000



AMGYLCHEDDOL

PA MOR WYRDD YW'R ARDAL?


Mae cyfraddau ail-gylchu wedi codi yng Ngwynedd dros y 4 mlynedd diwethaf. Erbyn hyn mae **59%** o wastraff trefol sy'n cael ei gasglu o dai, busnesau a chanolfannau ailgylchu yng Ngwynedd yn cael ei ailddenyddio neu ailgylchu. Mae hyn yn cynnwys deunyddiau biowastraff sy'n cael eu compostio.

Mae ystadegau ailgylchu ardal Ffestiniog yn cael eu cyfri fel rhan o rai Meirionnydd – ble mae **58% o wastraff yn cael ei ailgylchu**. Mae'r ffigwr wedi gwella yn sylweddol ers 2014/15 pan mai 49% oedd yn cael ei ailgylchu.

Mae tipio slei bach yn is yng Ngwynedd na gweddill Cymru - gyda 4.3 achos o dipio i bob 1000 o'r boblogaeth o gymharu â 10.2.

Ôl-troed carbon – mae'r data yn dangos bod 74% o gartrefi yn yr ardal yn berchen ar o leiaf un car neu fan, o'i gymharu â 79% yng Ngwynedd a 77% yng Nghymru. Mae allyriadau carbon fesul pen o'r boblogaeth ar gyfer Gwynedd yn **7.0kt CO₂**, sydd ychydig yn uwch na lefel Cymru o **6.6kt CO₂**.

Yn ardal Ffestiniog mae tua 200 o dai o dan fgygythiad o lifogydd mewndirol gan afonydd.




PA MOR LÂN YW'N STRYDOEDD?

Mae glendid strydoedd yn cael ei archwilio yn flynyddol gan Cadw Cymru'n Daclus.

O'r strydoedd archwiliwyd yn yr ardal hon roedd **9%** heb sbwriel na gwastraff (**Gradd A**), a **91%** ar y cyfan yn rhydd o sbwriel a gwastraff, gan eithrio rhai eitemau bach (**Gradd B**).



STRYDOEDD GRADD A
9%



AMGYLCHEDD NATURIOL

Mae gan ardal Ffestiniog amgylchedd naturiol sy'n amrywio o afonydd, coedwigoedd, llynnoedd a ffriddoedd.

Mae gwarchodfa natur **Llyn Mair** yn cynnwys rhywogaethau adar fel Crehyrod, Siglennod Brith, a Gweilch y Pysgod, yn ogystal â phryfed fel Mursennod a Gweision y Neidr. Yn ystod tymor y gaeaf, mae'r llyn yn denu hwyaid gwyllt ac yn ystod yr haf, mae lili'r dŵr yn ffynnu yma. Yn y gwanwyn a'r haf hefyd mae adar gan gynnwys y Tingoch, Telor y Coed, Telor y Cnau, y Gwybedog Brith, y Gigfran a'r Bwncath yn nythu yn yr ardal. Yn ogystal â bod yn gartref i ddyfrgwn, llwynogod a moch daear mae hon hefyd yn gynefin pwysig i'r Ystlum Pedol Leiaf.

Mae **Afon Eden – Cors Goch Trawsfynydd** wedi'i ddynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig – dyma ble mae'r boblogaeth hyfyw olaf o gregyn gleision dŵr croyw (misglod perlog) yng Nghymru.

Mae Coedwigoedd Derw Meirionnydd yn bwysig ar lefel Ewropeaidd gan eu bod yn cynnwys safleoedd coetir hynafol sydd bellach yn cael eu rheoli er mwyn eu hadfer a'u diogelu. Mae'r coedwigoedd derw yma, yn weddillion coedwig naturiol oedd yn wreiddiol yn gorchuddio rhan fwyaf o ymylon gorllewin Ewrop o'r Alban i Portiwgal. Oherwydd yr hinsawdd yn yr ardal mae'r goedwig yn unigryw ac yn gartref i redyn, mwsogl a llysiâu'r afu, cen a ffyngau prin iawn.

Mae tair o'r wyth gwarchodfa natur yng Nghoedydd Derw Meirionnydd yn ardal Ffestiniog wedi eu datblygu ar gyfer ymwelwyr:

Coed Llyn Mair
Ceunant Cynfal
Ceunant Llennyrch



CYMDEITHASOL

IECHYD DA?

Yn ardal Ffestiniog mae bron i **5,000** o gleifion wedi cofrestru fesul meddyg teulu llawn amser. Mae hyn yn sylweddol uwch na lefel Gwynedd sef **1,400** a Chymru yn **1,600**. Byddai angen 2 feddyg teulu arall yn ardal Ffestiniog i ddod a'r ffigwr lawr i lefel Cymru. Ar hyn o bryd mae locwm yn llenwi'r bwch.

Yn Bangor mae'r ysbty fawr agosaf. Os ydych yn byw yn ardal Ffestiniog, gallwch ddisgwyl tua **8:09 munud** am ambiwlans i ymateb i alwad mewn sefyllfa ble mae bygythiad i fywyd.

Nid oes gwybodaeth benodol am iechyd poblogaeth ardal Ffestiniog. Mae'r ystadegau sy'n cael eu cynnwys yn y llyfryn hwn ar gyfer Gwynedd i gyd – ond yn rhoi syniad o gyflwr a phatrymau o ran iechyd y sir.

Mae disgwyliad oes dyn adeg geni yng Ngwynedd yn **80 oed**, tra bod disgwyliad oes merched adeg geni yn **83.5 oed**.

Mae'r bwch mewn disgwyliad oes adeg geni merched a dynion, rhwng y rhai mwyaf a lleiaf difreintiedig yn ein cymunedau yn sylweddol is yng Ngwynedd na gweddill Cymru. I ferched yng Ngwynedd mae'r bwch yn **1.4 blwyddyn** o'i gymharu â 7.3 blwyddyn ar lefel Gymreig, a **3.1 blwyddyn** i ddynion o'i gymharu â 8.9.


Mae 52% o oedolion Gwynedd dros bwysau neu yn ordew – mae hyn yn is na'r ffigwr ar gyfer Cymru gyfan, sy'n 58%.

Mae 30% o blant 4-5 oed dros eu pwysau neu yn ordew – sy'n uwch na ffigwr Cymru o 26%

Ffactorau eraill sy'n effeithio ar ein hiechyd yw ysmegu ac yfed alcohol. Mae **22%** o bobl 16 oed neu'n hŷn yn dweud eu bod **yn ysmegu**, a 42% o bobl yn yfed **mwy na 5 gwydr bach o win**, neu tua 3 pheint o gwrw, ar y diwrnod yfed trymaf yr wythnos. Mae'r ddau ffigwr yma yn debyg iawn i weddill Cymru.

Mae cyfradd hunanladdiad yng Ngwynedd yn 14.7 i bob 100,000 o'r boblogaeth y flwyddyn – mae hyn yn uwch na'r gyfradd ar gyfer Cymru, sef 12.2.

Yng Ngwynedd, mae cyfradd beichiogi merched yn eu harddegau sydd o dan 18 oed yn 24 fesul 1000 o ferched 15-17 oed. Mae hyn yn debyg i ffigurau Cymru.



HYD OES



22%
O BOBL DROS
16 OED YN
YSMYGU



CADW'N DDIOGEL



Mae cyfradd troseddau ardal Ffestiniog fesul 1,000 o'i boblogaeth wedi gostwng o **105.1** i **95.9** rhwng 2011 a 2015. Mae hyn yn dilyn patrwm Gwynedd sydd hefyd wedi gweld nifer o droseddau yn dod lawr bob blwyddyn o **119** i **92.1** dros yr un cyfnod.

Mae patrwm ymddygiad gwrth-gymdeithasol ar i lawr ond yn dal yn cyfri am 33% o'r holl droseddau yn ardal Ffestiniog.

Mae **81%** o bobl yn credu ei bod yn saff i blant chwarae tu allan yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Y ffigwr cyfatebol ar gyfer Cymru ydi **64%**.

Yn ardal Ffestiniog mae **42** o achosion tân y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae **33%** o'r achosion hynny wedi'u cychwyn yn fwriadol – dyma'r uchaf yng Ngwynedd. Mae'r canran o achosion bwriadol o fewn ardaloedd yng Ngwynedd yn amrywio rhwng 9% - 33% ar gyfartaledd.

42
ACHOS TÂN

33%
YN FWRIADOL

CADW MEWN CYSYLLTIAD

Mae'r canran sydd â mynediad i fand-eang yn cynyddu yn flynyddol – erbyn hyn **3%** o eiddo yng Ngwynedd sydd heb fynediad o gwbl. Mae hyn yn welliant sylweddol o'r **20%** yn 2011.

26% o gartrefi yn ardal Ffestiniog sydd heb gar neu fan. Mae hyn yn cymharu â **21%** ar gyfer Gwynedd gyfan.

Yn ôl data cenedlaethol, mae ardal Trawsfynydd ymhlith y 10% o ardaloedd Cymru lle mae'n cymryd fwyaf o amser i deithio at wasanaethau sylfaenol fel fferyllfeydd, siopau bwyd a meddygfeydd.

Mae unigrwydd yn gyflwr sy'n effeithio ar bob oedran, ond mae pobl hyn yn fwy agored i risg. Yn ardal Ffestiniog, o ystyried y gwahanol ffactorau sy'n cyfrannu at unigrwydd, mae risg uwch i bobl dros 65 oed yn ardal Bowydd a Rhiw. Yng Nghymru, mae Gwynedd ymysg y siroedd ble mae'r risg uchaf o unigrwydd.

HELPU'N GILYDD

Mae **11%** o'r boblogaeth yn ardal Ffestiniog yn rhoi o leiaf un awr yr wythnos o ofal di-dâl. Mae'r ffigwr yma yn debyg i ardaloedd ar draws Gwynedd a Môn.

Mae **283** o bobl Gwynedd yn gwirfoddoli trwy'r **Ganolfan Gwirfoddolwyr**. Mae'r nifer go iawn sy'n gwirfoddoli trwy glybiau chwaraeon a chymdeithasau amrywiol yn llawer iawn uwch ond mae'n anodd mesur hyn.



ECONOMI A GWAITH

O dan y mesur ar gyfer pa mor gryf a chynhyrchiol yw economi (sef Gwerth Ychwanegol Crynswth), mae economi Gwynedd yn gryfach nag economi Cymru ac ardaloedd eraill cyfagos fel Ynys Môn, Conwy a Sir Ddinbych. Ond, mae economi'r holl ardaloedd hyn gan gynnwys Cymru gyfan yn wan o'i gymharu â'r Deyrnas Gyfunol.

Mae **31%** o bobl sydd mewn gwaith, ond heb unrhyw gymhwyster yn gweithio yn y galwedigaethau elfennol yn ardal Ffestiniog e.e. gweithio mewn ffatri, glanhau, casglu gwastraff, gweithio ar fferm. Yn gyffredinol, mae mwy o bobl sydd heb unrhyw gymhwyster yn gweithio yn y galwedigaethau elfennol nag unrhyw alwedigaeth arall ar draws Gwynedd.

O bobl oed gwaith Ffestiniog sydd heb unrhyw gymhwyster mae **41%** yn economaidd anweithgar – mae hyn yn golygu nad ydynt yn gweithio nac yn chwilio am waith am amrywiol resymau.

Mae'r **44%** o bobl sydd â chymhwyster gradd neu debyg yn gweithio yn y maes proffesiynol. Mae hyn yn debyg i batrwm Gwynedd a Chymru. O holl bobl Ffestiniog sydd mewn gwaith y crefftai medrus sy'n cyflogi'r mwyaf o weithwyr – sef 20%.

Mae canran y bobl 16-64 oed sy'n hawlio'r Lwfans Ceisio Gwaith yn ardal Ffestiniog yn dymhorol ac yn cynyddu yn ystod y gaeaf. Ar ei uchaf y llynedd roedd **2.19%** o bobl Ffestiniog 16-64 oed yn hawlio'r lwfans, ac **1.54%** ar ei isaf. Nid yw ffigwr Gwynedd byth yn gostwng yn is na **1.78%**. Mae o leiaf **2.15%** o bobl 16-64 oed Cymru gyfan, yn hawlio'r lwfans ar unrhyw adeg.

£293

YW CANOLRIF CYFLOG WYTHNOSOL YR ARDAL. DYMA'R ISAF YM MHRYDAIN

Mae cyfradd busnesau newydd sy'n cychwyn yng Ngwynedd yn is nag Ynys Môn a Chymru. Mae 62% o gwmnïau yng Ngwynedd yn aros mewn busnes am dair blynedd neu fwy. Mae hyn ychydig yn uwch na Chymru sydd ar 60%. Mae'r gyfradd o'r busnesau sy'n methu hefyd yn is yng Ngwynedd o'i gymharu â Chymru gyfan.

Amaeth a choedwigaeth yw'r sector mwyaf yn ardal Ffestiniog – mae'n cyfri am **24%** o gyflogwyr yr ardal. Y nesaf ato yw adeiladwaith ar 12%.

Mae **45%** o'r boblogaeth sy'n gweithio'n ardal Ffestiniog, yn teithio mwy na chwe milltir i'r gwaith. Dyma'r boblogaeth sy'n teithio bellaf i'w gwaith yng Ngwynedd ac mae'n uwch na ffigwr Cymru gyfan.

Mae canolrif cyflog wythnosol yn etholaeth Dwyfor Meirionnydd (y mae ardal Ffestiniog yn rhan ohoni) tua £293 yr wythnos, sydd 16% yn is na Gwynedd gyfan (£347 yr wythnos), a 24% yn is na Chymru gyfan (£387 yr wythnos). Dyma'r isaf ym Mhrydain.

Mae cyflogau merched **25% yn llai** na chyflog dynion yn yr etholaeth. Mae'r bwlch yma rywfaint yn llai na'r bwlch ar draws Gwynedd gyfan, lle mae cyflogau merched **32% yn llai** na chyflog dynion.





SGILIAU AM OES

Mae **64%** o ddisgyblion ardal Ffestiniog yn cael o leiaf 5 TGAU gradd **A*** i **C** mewn pynciau sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg. Mae hyn yn uwch na pherfformiad Gwynedd o **63%**.

O'r rhai sydd yn cael y graddau hyn, mae bwlch mewn cyrhaeddiad o **48%** rhwng disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai sy'n talu – dyma'r bwlch mwyaf yng Ngwynedd. Mae hyn yn cymharu â **36%** ar gyfer Gwynedd, a **33%** ar draws Cymru gyfan.

O'r bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol – **1.8%** sydd ddim yn parhau mewn addysg, cyflogaeth nac hyfforddiant yng Ngwynedd. Mae hyn yn is na ffigwr Cymru o **2.8%**.

Mae gan **20%** o boblogaeth ardal Ffestiniog gymhwyster gradd neu gyfatebol - dyma'r canran isaf yng Ngwynedd. Mae dros chwarter poblogaeth Ffestiniog heb unrhyw gymhwyster - yr ail uchaf o ardaloedd Gwynedd i gyd.



YR ARIAN YN EICH POCED

Mae arian sydd ar gael i'w wario ar ôl trethi a chostau talu am gartref gan bobl yng Ngwynedd, yn **£14,640** y pen y flwyddyn – £662 yn llai na Chymru gyfan.

Yn ardal Ffestiniog, mae **21%** o ddisgyblion yr ysgol gynradd yn hawlio prydau ysgol am ddim sydd yr uchaf yng Ngwynedd. Erbyn i ddisgyblion gyrraedd ysgol uwchradd, mae'r ffigwr yn gostwng i **16%**, sydd yn parhau yn uchel iawn o gymharu â gweddill ardaloedd Gwynedd.

Mae **26%** o aelwydydd yn ardal Ffestiniog mewn tlodi tanwydd. Dyma'r ganran uchaf yng Ngwynedd (21%) ac mae bron i ddwywaith y ffigwr Cymreig o **14%**. O'r holl gartrefi yn yr ardal, mae **11%** heb wres canolog. Mae'r ffigwr yma ymysg yr uchaf yng Ngwynedd, ac yn sylweddol uwch na'r ffigwr o 2% ar gyfer Cymru.

Yn ardal Ffestiniog, mae dros hanner o gartrefi yn dai teras (**56%**) – yr uchaf o ardaloedd Gwynedd ac Ynys Môn.

Mae Pris Canolrif Eiddo yn ardal Ffestiniog yn **£77,000**, sydd yn bell o dan bris canolrif eiddo Gwynedd o £144,000.

Yn yr ardal, mae canolrif incwm aelwydydd yn £19,000, yr isaf yng Ngwynedd – mae angen £16,500 brynu tŷ pris lefel mynediad i'r farchnad. Mae hyn yn golygu bod **41%** o aelwydydd Ffestiniog wedi eu prasio allan o'r farchnad. Er hynny ac oherwydd prisiau cymharol isel eiddo yn Ffestiniog mae **59% yn gallu fforddio** prynu tŷ yn eu hardal, a dyma'r uchaf yng Ngwynedd. Mae **60%** o deuluoedd Gwynedd wedi eu prasio allan o'r farchnad.

41%

O BOBL
LEOL WEDI
PRISIO
ALLAN O'R
FARCHNAD

CANOLRIF
PRIS Tŷ
£77K

CANOLRIF
INCWM
£19K


DIWYLLIANNOL



CADW'N HEINI

Dim ond ffigyrau ar lefel Gwynedd sydd ar gael ar gyfer chwaraeon. Rydym yn gwybod bod **53%** o ddisgyblion Gwynedd yn ymweld â chanolfannau hamdden, sy'n uwch na lefel Cymru o **42%**. Mae 51.6% o blant Gwynedd hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon 3 gwaith neu fwy yr wythnos – mae hyn yn cymharu â 48% yng Nghymru.

Mae **37%** o oedolion yn dweud eu bod yn actif am **o leiaf 30 munud** ar bump neu fwy achlysur mewn wythnos – mae hyn yn uwch na'r 31% yng Nghymru. Mae'r canran wedi codi yn raddol dros y blynyddoedd diwethaf.

40% 
**O LYFRAU
PLANT WEDI EU
BENTHYG YN
RHAI CYMRAEG**

37%
**O OEDOLION YN
CADW'N ACTIF AM
O LEIAF 30 MUNUD
5 GWAITH YR
WYTHNOS**

AMSER HAMDDEN

Ar gyfartaledd mae **4.1 llyfr** wedi eu benthyg fesul pen o'r boblogaeth yn ardal Ffestiniog, sef y lefel uchaf o ardaloedd Gwynedd i gyd. O'r llyfrau ar gyfer plant sydd wedi eu benthyg, mae **40%** ohonynt yn lyfrau Cymraeg, sydd yn uwch na lefel Gwynedd o **39%**.

Mae **62%** o oedolion yng Ngwynedd yn dweud eu bod wedi mynd i ddiwyddiad celfyddydol yn ystod y flwyddyn, a **35%** wedi ymweld ag amgueddfa. Mae ychydig dros hanner pobl y sir wedi ymweld â llefydd hanesyddol sy'n debyg i'r ffigur ar gyfer Môn a gweddill Chymru.

**AM FWY O
WYBODAETH...**

**WWW.LLESIANTGWYNEDDAMON.ORG
01766 771000**

Gofynnwch am
Rheolwr Partneriaeth Gwynedd a Môn

